Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL Ymgynghoriad Cymru ar Is-ddeddfwriaeth Caffael Cyhoeddus: Rhan 1 a Rhan 2 – Yr ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

DYDDIAD **14 Tachwedd 2023**

GAN **Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi heddiw grynodeb o'r ymatebion i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Is-ddeddfwriaeth Caffael Cyhoeddus.

Bydd y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan y Ddeddf Caffael a'r Rheoliadau cysylltiedig yn creu set symlach a mwy hyblyg o reolau, gan wneud caffael cyhoeddus yn fwy hygyrch i fusnesau gan gynnwys busnesau bach a chanolig yng Nghymru, a bydd hefyd yn gwella tryloywder.

Roedd rhan gyntaf yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ynghylch a oedd manylion technegol y drafft yn gywir ac yn gyraeddadwy. Roedd yn canolbwyntio ar feysydd yn y Ddeddf Caffael lle, yn ymarferol, mae angen defnyddio rhestrau, cyfrifiadau neu ddiffiniadau pellach.

Roedd ail ran yr ymgynghoriad yn canolbwyntio'n bennaf at yr hysbysiadau tryloywder sy'n caniatáu i awdurdodau contractio fwrw ymlaen â phrosesau caffael drwy gydol cylch bywyd y broses caffael mewn modd agored a thryloyw sy'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen.

Rhannwyd yr ymgynghoriad yn ddwy ran, a oedd yn rhedeg am gyfnod o chwe wythnos yr un rhwng 19 Mehefin a 28 Gorffennaf 2023. Roedd yn dda gennym dderbyn ymatebion gan amrediad eang o sefydliadau ledled Cymru, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y sector Addysg Uwch, y sector tai cymdeithasol, y Gwasanaeth Tân ac Achub, cyrff llywodraethol gan gynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, y byd academaidd a'r sector preifat.

Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion yn ofalus, a heddiw rydym wedi cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion. Mae ar gael yma ac yma. Bydd y materion a godwyd yn llywio'r gwaith o

ddatblygu ein his-ddeddfwriaeth ymhellach. Byddwn yn parhau i drafod â'n rhanddeiliaid wrth baratoi'r gyfundrefn newydd.

Bydd fy swyddogion a minnau'n parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar eu hofferynnau statudol hwythau i sicrhau bod y deddfwriaeth mor gyson â phosibl ac i leihau unrhyw risg bosibl o wahaniaethau. Bydd sicrhau'r cysondeb mwyaf posibl rhwng y rheolau caffael fel y maent yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr yn sicrhau tegwch i brynwyr a chyflenwyr ar ddwy ochr y ffin. O ganlyniad, efallai y bydd angen gwelliannau i OS drafft Cymru yn dilyn ein dadansoddiad o ymateb Llywodraeth y DU i'w hymgynghoriad hwy, er mwyn sicrhau bod cysondeb yn parhau wrth hefyd ganiatáu gwahaniaethau datganoledig pan fydd hynny'n briodol.